Cyfres Llanbedr | Mai, 1928 | Cyf. 28. Rhif 5.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. | Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Hywel Dda.
Y Llaw-farw.
John Jones o Aberaeron.
Trysorfa'r Myfyrwyr.
Cyrddau'r Pasg.
Capel Ciliau Aeron.
Urdd y Benywod.
Cymanfa Ganu Morgannwg.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhydd[illegible]chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Mynnwch gael yr Argraffiad Newydd o

"TELYN DEWI,"

SEF GWAITH PRYDYDDAWL

Y Parch. DAVID DAVIS, o Gastell Hywel.

CYFROL DLWS.—Pris 3s. 6c. ; drwy'r Post, 3s. 10c.

Anfoner i SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

FEES 130 GUINEAS.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. MAI, 1928. Cyf. XXVIII. Rhif 5.

Hywel Dda.

GWYR pob plentyn ysgol i'r Rhufeiniwr lywodraethu ym Mhrydain am ryw bedwar can mlynedd ac fe'n hatgofir gan gastell y Norddman o'i ormes yntau ond ni wyddom nemor o hanes ein gwlad a'n cenedl rhwng ymadael o'r Rhufeiniwr a dyfod o'r Norddman yma—cyfnod o dros bum can mlynedd. Wedi galw y Rhufeiniwr adref, yr oedd y Cymro'n ddiamddiffyn, gyda'r Pictiaid yn y gogledd, y gwyr du—y morladron—yn heigio megis o'r mor a'r barbariaid oedd newydd ymsefydlu yn Lloegr yn barod i ladd a lladrata fel yr oedd gorfod ar y Cymro i frwydro am ei gartref ac am ei einioes. Yn yr argyfwng hwn y ceir son am Gunedda Wledig yn uno'r mân frenhinoedd a thywysogion er gwrthsefyll yr estron creulon. Y mae dwy frwydr yn bwysig; brwydr Deorham heb fod nepell o Fath yng Ngwlad yr Haf, yn 577 pan dorrwyd rhyngom a gwŷr Dyfraint a Chernyw a brwydr Caer 613 pan dorrwyd rhyngom a gwŷr Ystrad Clwyd gan adael y Cymro yng Nghymru. Ni fedrai hanes y cyfnod fod yn ddim ond hanes brwydro, brwydro yn erbyn y Saeson a'r paganiaid duon a brwydro a'i gilydd, ond tua'r nawfed ganrif fe geir Rhodri Mawr wedi gorfodi y man frenhinoedd i dalu gwrogaeth iddo ac ymestynnai'i awdurdod o Fôn i Wyr ac yntau'n gyfoeswr ag Aelffred Fawr. Wedi ei farw yn 878 rhannwyd ei deyrnas rhwng ei feibion a syrthiodd Deheubarth—Ceredigion a Chaerfyrddin hyd Tywi i Gadell a mab iddo ef oedd Hywel Dda, wedi'i eni ond odid yng Ngheredigion neu Gaerfyrddin. Bu Cadell farw'n gynnar yn y ddegfed ganrif a daeth Hywel i'r orsedd " Pen a moliant yr holl Frytaniaid " yn ol Brut y Tywysogion ac wedi mil o flynyddoedd fe'i hystyrrir gan yr Athro W. J. Gruffydd " Y mwyaf o waed ac iaith y Cymro." Nid oes nemor o'i hanes ar gael ond iddo fynd ac yntau yn wr ieuanc deg ar hugain oed yn y flwyddyn 928 ar bererindod i Rufain er gweld y byd ac yn unol ag ysbryd menter ei galon. Y mae'n hawdd dyfalu. Y Norddman ond odid a ddysgodd y Cymro i godi eglwys a mynachlog o faen a dylid cofio

mai eglwysi a thai coed a geid o fewn y cyfnod, a pan ddoi'r gelyn llosgai ffordd yr elai. "Nid oedd siawns i ddysg na diogelwch i lyfrau," a dyna'r esboniad hwyrach nad oes lên na hanes ar gael. Priododd Hywel Elen o Ddyfed a daeth Dyfed i'w ran ac wedi marw Idwal ei gefnder yn 942 gafaelodd yng Ngwynedd. O ddarllain hen siarterau Lloegr ceir fod Hywel yn eu llawnodi neu'n hytrach yn gwneud croes o'r flwyddyn 931 tan 949. Ni fedrai nebun bron ond yr offeiriaid ysgrifennu. Hwyrach na fynnent i neb ddysgu'r grefft, pwy wyr?

Am y saith neu wyth mlynedd olaf o'i oes yr oedd Hywel yn frenin ar Gymru a dyma'r adeg iddo yn ol yr Athro J. E. Lloyd, M.A. "beri i fathwr arian yng Nghaer o'r enw Gillyz fathu "ceiniogau" (o arian, nid o bres) yn dwyn yr arysgrif "Howael Rex" (sef, Hywel Frenin) peth nad ymddengys i unrhyw Gymro arall ei wneuthur na chynt na chwedyn." Fe geir y geiniog hon yn yr Amgueddfa Brydeinig. Fe ddywedai'r Athro Loth "Prif deitl y Cymry i glod ym myd y meddwl yw eu cyfreithiau" a dyna a roes i Hywel y teitl "da" a dyna a gadwodd ei enw'n fyw am fil o flynyddoedd. Deil yr Athro Lloyd fod tri pheth o leiaf yn sicr. Nid oes amheuaeth iddo alw chwe gwr o bob cantref i'r Hendygwyn ar Daf, lle cynhaliwyd cynhadledd fawr er gosod trefn ar arferion ac ordeiniadau'r gwahanol ardaloedd a chorfforwyd y gyfraith mewn testun ysgrifenedig. Y mae enw yr Archddiacon Blegywryd ab Einon o Went, y cyfreithiwr medrus a roi gyngor—"yr ysgolhaig hyotlaf o Gymry oll" wedi dod i lawr atom. Nid teg ydyw credu i Hywel wneud dim ond peri crynhoi a dosbarthu hen arferion y gwahanol ardaloedd nes cael un gyfraith drwy'i deyrnas. Y mae'n ddiddorol gwybod pan ddoi ambell ddadl na cheid ateb iddi yng nghyfreithiau Hywel nad oedd gan y cyfreithwyr ond gweddio ar Sant neu Santes Gwenog a dywedyd rhag ofn iddynt fethu "Dewi o Frevi cynorthwya ni." Fe geir y cyfreithiau hyn wedi'u hysgrifennu mewn dwy lawysgrif Llanstephan 116 yn hanner olaf y bymthegfed ganrif a Llyfr du o'r Weun tua 1180 ac fe sylwir fod yr hynaf ohonynt ddau can mlynedd wedi amser Hywel. Ar waethaf y gagendor hwn nid oes amheuaeth nad â rhan helaeth yn ol i amser Hywel gydag ychwanegiadau'n crynhoi yn nhreigl y blynyddoedd fel caseg eira. Bernir mai iaith y cyfreithiau yw y rhyddiaith hynaf ar gael ac ohoni y tarddodd iaith ystwyth a phersain y Mabinogi.

Nid rhywbeth eithriadol mo'r dosbarthu yma ond codai'n naturiol o'r awydd am drefn a dosbarth yn eu perthynas a'i gilydd. Rhwng y chweched a'r ddegfed ganrif fe ddosbarthwyd Cyfraith bron bob cenedl a Chymru oedd yr olaf i wneuthur hyny ond y mae Cyfreithiau Hywel yn eangach ac yn delio a phob agwedd

ar fywyd y genedl. Ni cheir dim i'w cymharu a hwy wedi cwympo Rhufain a'i chyfraith hyd dyfod o Ffiwdaliaeth yn ei grym. Nid rhywbeth am oes Hywel mohonynt. Fe geir digon o brofion yn Ystadud Cymru 1284 fod yr hen gyfreithiau yn dal yn eu grym hyd amser Harri'r Pumed yn 1413 am ryw 614 o flynyddoedd o leiaf er pob cyfnewid yng nghyfraith Lloegr. Fe welir gwerth yr hen gyfreithiau o gofio'r amseroedd ac mai dyma'r unig ddiogelwch rhag dial gwaed. Yr oedd rhyw nwyd yng Nghymru am gyfraith ac iawnder, a nodweddir y cyfreithiau gan drugaredd—y gosp yn cyfateb i'r trosedd. Ni cheir son ynddynt yn ol yr Athro Levi am yr *Ordeal* o ddwr a thân nac am dorri dyn ar yr olwyn, ac er fod cyfraith Lloegr yn crogi dyn hyd yn gymharol ddiweddar am ladrad—hyd yn oed am ddwyn dafad neu lai, eto daliai cyfraith Hywel na ddylid crogi dyn ond am ganpunt a'r canpunt y pryd hwnnw yn werth wyth neu ddeg mil o bunnau o'n harian ni.

Yr oedd yr hen gyfraith yn gyfiawn, a heb wahaniaethu rhwng cyfoethog a thlawd. Nid oedd ddyn nad oedd raid iddo dalu iawn am y cam a wnai.

"Cyfraith a ddywed bod yr un werth pob dyn a'i gilydd. Os torrir aelod y brenin ei fod yr un werth ag aelod bilain."

Rhydd y cyfreithiau ddarlun o fywyd y Cymro, yn ei fywyd bob dydd, a diddorol sylwi y gwyddai'r hen Gymry am *shinglo* bymtheg canrif yn ol. Ni thriniai'r bonheddig dir, hela a rhyfela oedd ei waith a dyna'i waith hyd heddiw ond odid, a phennaeth y teulu oedd yr *Uchelwr*. Y nesaf at y bonheddig ceid y mân dyddynwyr a elwid taeogion neu eilltion ac ni allai mab taeog fod yn fardd na gôf na chlerigwr—cwmni da gynt ond wedi codi neu ddirywio heddiw. Y dosbarth iselaf oedd y caethion. Gwelir gwahaniaeth rhwng bonheddig a chaeth o gymharu yr iawn am eu lladd—eu *galanas*—Galanas pen kenedl 189 o dda, uchelwr 126 o dda, caeth pwys o arian : pedair buwch. Nid oedd benyw ond hanner gwerth dyn. Yr oedd yr hen Gymry yn fwy mentrus na ni. Ni feiddiwn ni heddiw ei phrisio felly.

Hyd y gwelai'r hen Gymro yr oedd yn wr cyfiawn. Dyma'i ffordd o rannu.

"Ill dau yn gyntaf rannu yn ddau hanner, a chymryd o bob un ei hanner ato, a rhannu o bob un yr hanner a ddaeth ato yn ddau hanner, a gwedi darffo rhannu felly, rhodded pob un ei ddewis i gilydd ar y rhan a rannodd." Gelwir Hywel heddiw yn 'Justinian' Cymru a cheir meddir yn ei gyfreithiau gnewllyn "Trial by Jury" ac y mae'n werth i ni wedi mil o flynyddoedd barchu'i goffa.

Hen derm y gyfraith yw "dadanhuddo." Fe geid y gair yn fyw yng Nghymru ugain mlynedd yn ol o leiaf os nad heddiw yn "*nuddo'r* tan a'i ddadanhuddo yn y bore." Golygai dadanhuddo fab yn hawlio tir ar ol ei dad yr oedd wedi ei ddifeddiannu ohono yn anghyfreithlon a dyna wneir heddiw, chwedl yr Athro W. J. Gruffydd *dadanhuddo* gogoniant yr hen gyfreithiau Cymraeg a'r gwr a'u dosbarthodd—Hywel Dda—ond yr oedd un amod—Ni fedrai neb *ddadanhuddo* yn ol y gyfraith ond mab y tad a'i meddai gynt a'r awgrym ond odid yw na fedr neb ond Cymro o galon ddadanhuddo gogoniant Hywel Dda—" y mwyaf o iaith a gwaed y Cymro."

Y Llaw-farw.

YN ol yn yr oesoedd canol tua chyfnod Ffiwdaliaeth darllenwn am Ystadud y Llaw-farw, ac am a wn i y mae perigl o hyd rhag mynd i afael y llaw-farw. Hyd yn oed yn ein dyddiau ni fe wneir unpeth er mwyn peidio trwblu'r dwr ac er cael tawelwch. Gwylltir pob enwad gan ddadleuon diwinyddol oherwydd ofni rhwyg heb gofio nad marw mo'r grefydd a fedr ffrwydrio mewn dadl. Y maent yn camsynied. Hyd y medraf i weld arwydd o fywyd yw dadl ac y mae perigl talu'n rhy ddrud am gyfanrwydd enwad. Nid yw'r gwirionedd byth mewn perigl. Fe ofala'r gwirionedd am dano'i hun. Felly ni raid pryderu am ein systemau a'n dogmau oherwydd nid yw'n dogmâu ond cais i fynegir gwirionedd fel y'i gwelid yn y canrifoedd cynnar a Duw a faddeuo i ni oni welwn ni heddiw ragor nag a welent hwy. Parchaf i gredo fel y parchaf rhyw hen lyfr neu rhywbeth yn yr amgueddfa. Dengys imi'r ffordd y cerddodd y teidiau ac nid yw ond carreg filltir ar y daith. Y mae gwir ymhob credo a luniwyd erioed neu ni fuasai byw, ond trueni rhwymo dyn wrth garreg filltir hyd yn oed ar y ffordd fawr, a gwirionedd yn cymell dyn i gerdded rhagddo. Fe broffesir gan y gwahanol sectau eu bod yn gwybod meddwl Duw a Christ, ond lle y mae cymaint o groesddywedyd y mae'n anodd bod yn bendant, a mwy pwysig o lawer ydyw ceisio byw yn ysbryd Crist.

Heb fod nepell o'm hystafell fe esgyn yr arogl darth ond odid i'r nef a gweddi calon onest gydag ef hyd y gwn i. Goleuir y canhwyllau : Gwneir arwydd y groes a phob ystum wrth ddefod. Cyffesir pechodau a chofier nid er sarhau na gwawdio y'i dywedaf oherwydd y mae iddo ei le ym mywyd crefyddol nifer luosog iawn o Gristionogion. Ni charwn ddywedyd yn onest nad oes iddo ei werth hyd yn oed ym mywyd crefyddol yr ugeinfed ganrif.

Pryderir am fy iechydwriaeth innau gyda llaw ac nid amheuaf nad oes le i bryder. Er hyn, ni cheisiaf ac ni charaf dalu'r pwyth. Credaf y medrir cael nefoedd drwy ddefodau a seremoniau neu ar eu gwaethaf, a gobeithiaf a chredaf na chaf innau le *rhy boeth* oni bydd rhywbeth pwysicach yn fy erbyn nag anwybyddu defod a seremoniau unrhyw eglwys. Beth bynnag am y sydd yn fy nisgwyl yr ochr draw, ni siglir mo'm ffydd yn Nuw'r Cariad ac ni thywyllaf mo'r golau sydd ynof er nad yw hwyrach ddim amgen na "llin yn mygu."

Y mae gennyf barch dibendraw i'r prydferth mewn gwasanaeth a charaf ysbryd defosiwn lle bynnag y'i ceir. Y mae y prydferth yn help i mi i addoli Duw ond er dywedyd hynyna credaf fod defod yn diorseddu'r deall a pherigl i seremoniau i anwybyddu rheswm.

Hwyrach fy mod yn methu ond y mae cynnydd Eglwys Rhufain ym Mhrydain yn ddiweddar, Fundamentaliaid yr Amerig, yr Anglo-Catholiciaid yn yr Eglwys Esgobol ac erlid heresi yr enwadau yn awgrymu y llaw farw yn Eglwys Dduw. Nid awgrymaf am foment nad ydynt yn onest, cyn onested a ninnau a mwy felly os mynner. Y drwg am dani yw yr oedd pobl yn gydwybodol onest wrth losgi'r merthyron ganrifoedd yn ol. Medr dyn dall fod yn ddigon gonest ond os mai dall ydyw, medr fynd dros y dibyn onis rhybuddir a chofier braidd yn ystyfnig ydyw'r dall bob amser oherwydd fod ofn yn ei galon a phetruster yn ei gam.

Nid wyf i am ymyrryd yng nghwerylon un enwad. Nid da cweryl yn unlle o gellir help ond y mae cael senedd gwlad i dorri dadl ar Lyfr Gweddi yn wrthun a chwerthinllyd, ac ni chredid y buasai trawsylweddiad a defodau Eglwys Rhufain yn rhwygo Eglwys Loegr wedi iddi eu gwrthod cyhyd bellach. Y mae'n bryd aros a meddwl o weld Eglwys Loegr ar y groesffordd heddiw eto fel yn yr amseroedd gynt a rhywrai'n gofyn a ydyw'r Esgob Barnes a'r Deon Inge yn onest am na oddefant i'r llaw-farw dywyllu'r deall.

Y mae yna duedd y dyddiau hyn i ddibrisio'r deall a derbyn awgrym Bergson ond odid o gynneddf uwch mewn dyn na'r deall. Y mae'n werth cofio mai diwygiad drwy'r teimladau oedd y Diwygiad Methodistaidd a gwaith haws yw cynhyrfu teimlad nag adfywio rheswm. Hwyrach fod rheswm o'i yrru dan yr wyneb cyhyd yn mynnu llwybr i'r golau hwyr neu hwyrach fel y gwna'r graig dawdd yn y mynydd tanllyd. Tybed mai dyma'r esboniad ar yr anesmwythyd yn ambell enwad heddiw ?

Tua dechreu'r flwyddyn cyhoeddwyd pamffled "Ymddiddanion Malines 1921—1925." Nid yw ddim amgen na "sect" yr Anglo-Catholig ac wedi hyny yr Anglicaniaid dan nawdd Archesgobion Caergaint a Chaerefrog yn cael eu blaenori gan Esgob Gore a Dr. Kidd, yn ceisio ysgwyd llaw a Rhufain, a dengys i mi fod rhyw hiraeth dwfn yng nghalon llawer o Eglwys Loegr am gael mynd adref a thrueni un adeg ydyw rhwystro plant i fynd adref at eu mam a hwythau wedi gadael yr aelwyd ers amser maith.

Credaf fod y trai i'w deimlo ymhob enwad a'r llanw hefyd gobeithio. Flynyddoedd yn ol bellach ysgrifennai Martineau "the great mass of our congregations are as much wedded to their type of 'orthodoxy' as the professors of the Westminster Confession of Faith to their ampler formulary" o deimlo fod llif yr afon yn arafu a chaledu. Rhyw ofni—rhyw rybuddio ymlaen llaw yr ydoedd. Ychydig feddyliai y doi dydd mewn gwirionedd pan deimlid y llaw-farw yn cydio gafael ond credaf pe doi ysbryd Martineau a John James Gellionnen a Gwilym Marles ac eraill heibio heddiw a gwrando'n ddistaw ar y "Sasiwn yng Nghwrt-newydd" fe fuasent yn codi eu dwylo mewn rhyfeddod o weld y mudiad a garent mewn perigl o golli'r ysbryd i gerdded ymlaen ac yn hytrach na bod yn arloeswyr y ffordd ym myd rhyddid meddwl a llafar yn troi i foddio mympwy a *respectability* gan gymryd eu lle'n naturiol fel camp-followers. Oes bosibl y trown ni yr hyn nad ydoedd ond cyfeiriad i'n teidiau yn sefyllfa (position) i'w chadw a'i hamddiffyn. Fe ddywedai Dr. Fisher nad oedd Union-gredodd ond rheol y ffordd—the rule of the road, ond y mae Undodiaeth yn golygu rhagor na hynyna i mi. Ys dywedai rhywun "Undodwr yw'r gwr nad yw wedi dywedyd ei air olaf," a gwae'r neb, boed gyfoethog neu dlawd, boed fonheddig neu wreng a gais wadu'r hawl hon inni.

Y mae rhai gweiniaid yn ein plith yn cwyno na chaiff ein gweinidogion ni fod yn *padres* ym mudiad Toc H., ond paham y cwyno. Fe geir ond talu'r pris ac onid ydym yn barod i'w dalu na chwynwn ychwaith, oherwydd colli ohonom beth o'n *respectability* am na chaniateir inni yr enw Cristion gan ryw *glique* neu gilydd. Nid a roi'r yr enw Cristion arnom gan arall a gymer arno fod yn farnwr arnom ni neu'n syniadau y sydd bwysig ond a ydym ni yn nwfn y galon yn ceisio byw egwyddorion y bregeth ar y mynydd a cheisio hyd yn oed o hirbell ddilyn y Meistr. Ni ddymunaf waeth uffern ar arweinwyr Toc H nag iddynt gael aros yng nghyntedd y nef os mynner a gweld rhyw Undodwr gwrthodedig ganddynt yn cael dod i mewn i bresenoldeb Duw, ac oni newidir eu hysbryd hwy, fe fydd yn ddigon hefyd.

Y mae'n dda, er nad yw'n bwysig i wybod mai ar bwnc yr ymgnawdoliad a dwyfoldeb (divinity) Crist y'n caeir allan o Toc H, a sylwer nad oes un Undodwr yn amau dwyfoldeb Crist. Ei dduwdod yw'n maen tramgwydd ni. Yng nghynhadledd Toc H nid oedd ond *pedwar* yn anghytuno a'r cau allan a diolch am bedwar ag ysbryd Crist ganddynt o leiaf ym mudiad y Toc H. Hwyrach ryw ddydd yr estynnir y cortynnau a'r pedwar hwyrach yn fil. Ni wn i. Nid yw waeth gennyf ond rywsut carwn wybod a ydyw'r Deon Inge i mewn a beth feddwl Toc H am ei syniad ef am yr Ymgnawdoliad yn ei "Confessio Fidei,"—"that the Incarnation should have taken the form of a human life lived under ordinary circumstances causes no difficulty. A perfect human character, with human limitations is the only possible form of an Incarnation for the benefit of mankind."

Trown yn naturiol at Sasiwn arall yn Nhreherbert, a Thom Nefyn ar ei braw. Nid teg ei alw'n Undodwr ac y mae gennyf adnod ar y pwnc "Oherwydd am y sect hon hysbys yw i ni y dywedir yn ei herbyn ymhobman."

Nid hoffaf *labelo* neb chwedl Beard gan ddosbarthu dyn "like a jampot or a pillbox." Y mae'r awgrym yn ddigon gan lawer un i'w groeshoelio ac nid wyf yn sicr nad dyna paham y'i llysenwir felly. Angharedig i'm tyb i ydoedd awgrym y Parch. Philip J. Jones, B.D., Caerdydd, er ei fod yn awgrymu i'r enwad ei gondemnio ei hun drwy roi praw i'r deall—an intellectual test—yn hytrach na phraw uwch ond paham y dywedai "a creed which has apparently appealed very powerfully to brethren of a denomination which owns no creeds." Y mae rhyw wenwyn—rhyw slime—i mi yn y frawddeg. Nid a ydyw credo Tom Nefyn yn boddloni rhyw enwad neu gilydd y sydd bwysig ond a ydyw yn fynegiant o'r golau y sydd ynddo ac a ydyw ei *sincerity* yn boddloni calon a chydwybod meddwl ieuanc ei genedl.

Fe gondemnir llawer ar y Prifathro J. Morgan Jones am ei eiriau caredig am gyffes Tom Nefyn "Y Ffordd yr edrychaf ar Bethau" yn yr *Efrydydd* am iddo ddywedyd "O'm rhan fy hun cydymdeimlaf yn llwyr a chytunaf a bron pob gair sydd yn ei gyffes." Ofnir nad yw coleg a Phrifathro felly yn le saff i godi gweinidogion dau enwad ynddo. Nid yw yn fy mryd i ar hyn o bryd i ddelio ar gyffes. Nid oes ynddi ddim newydd i mi o leiaf, er ei bod wedi brawychu Dr. H. M. Hughes, O.B.E., Caerdydd, pan ddywed "He even utterly rejects the Resurrection of Jesus and the last resurrection of all."

Yr wyf i yn ddigon syml i ofyn a oes neb yng Nghymru heddiw heb deitl Doethur mewn Diwinyddiaeth ganddo a gred yn yr Adgyfodiad y dydd diweddaf. Ba eisiau adgyfodiad sydd o chredir nad a dim ond yr hen gorff i'r bedd. Rhwng cromfachau megis, fe geir paragraff diddorol o dan enw y Parch. D. G. Jones, Pontardawe yn y *Darian* ac y mae'n gwybod mwy na myfi (ac nid yw'n gamp hwyrach) am Undodiaeth pan ddywed "a chan nad yw Tom Nefyn yn credu mewn diarddel meddwon a godinebwyr, ni dderbyniai yr Undodiaid ef ychwaith. Ac mor bell ag y gwn i, y mae'r Undodiaid yn bedyddio yn enw y Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glan yr hyn a wrthyd Mr. Williams yn bendant." Dyna ben arni, a'r awgrym yw, fod hyd yn oed enwad ysgymun fel yr Undodiaid yn rhy *respectable* i dderbyn Tom Nefyn a'r awdur fel yn rhyw led ofni yr ai yno ac am gau'r drws yn ei wyneb.

Ni chlywais i son am ddiarddel mewn capel Undodaidd. Nid am nad oes ddefaid duon yno fel ymhobman ond oherwydd credu ohonof gyda "Chyfaill Publicanod a Phechaduriaid" fod mwy o angen help llaw ar ddyn ar lawr ac ni ddeallaf i mo Meibl i Grist ddiarddel y wraig a ddaliwyd mewn godineb.

Parthed bedyddio, ni chredaf y pwysleisia'r enwad fedydd ac y mae'n well gan lawer ohonom ddilyn yr Apostolion bore a bedyddio "yn enw Iesu."

I mi'n bersonol y mae grym yn ei gyffes am iddo ei churo allan megis o'i brofiad ei hun. Nid *readymade* mohoni ac nid y gair olaf ar ddim. Nid yw ddim amgen na Thom Nefyn yn meddwl yn hyglyw a'r genedl yn ei glywed—Tom Nefyn yn gafael codwm a'r llaw-farw ac yn cael ei drechu i olwg llygad yn y codwm cyntaf, Ond ys dywedai rhywun "Some failures are nobler than success," ac yn yr ysbryd gwasgaf ei law mewn cydymdeimlad gan gredu fod Iorwerth C. Peate, M.A. yn y *Llenor* yn awgrymu'r gwir ond fod y gair *gonestrwydd* yn rhy galed ganddo, oherwydd eu bod wedi eu twyllo eu hunain a chan hyny ond odid yn ddigon gonest ond buasai'n well gennyf pe ddywedasai—"wrth weld *rhwymo deall dyn ar allor dogma*" ond dyma'i eiriau :—

> "Ym myd y gwahanol wybodau, dywedir yn ddigon croyw 'Ni wn i ddim.' Ym myd crefydd dilyn dogmau a ffurfiwyd gan bobl lawer analluocach nag arweinwyr yr ugeinfed ganrif, a dywedyd : Credaf. A minnau (a thithau, mi obeithiaf) wrth weled aberthu gonestrwydd (*neu'n hytrach ddeall dyn*) ar allor dogma yn troi ymaith i
>
> Wylo dagrau o ddiawledigrwydd."

S.D.S.

John Jones o Aberaeron.

YMAE'R Hen Nodiant, er's amser maith, wedi gorfod cilio i'r cysgodau—o leiaf, i fesur mawr iawn; ac y mae'r Nodiant Newydd—y Solffa—wedi dod yn boblogaidd. Eithriadau, bellach, yw'r rhai a wyr ddim am yr Hen. Nid gorucheliaeth hawdd a fu'r trosiad o un i'r llall: yn hytrach, bu brwydro ffyrnig rhwng pleidwyr y ddau. Os nad yw fy nghof yn fy mradychu, bu dadl frwd ar y mater yn y Gymanfa Ganu gyntaf yng Nghapelygroes yn 1872. Gwŷr Llandysul oedd pleidwyr yr Hen, dan arweiniad y diweddar a'r doniol Domas Lewis; a gwrthwynebid hwynt gan y diweddar John Lloyd o Bantywilco ac eraill (o'r Eglwysi uchaf, y rhan fwyaf o honynt). Y mae gennyf frith gof imi glywed un o bleidwyr yr Hen yn dywedyd mai peth addas i blant oedd y Newydd. Ni chofiaf sut y terfynwyd y ddadl—os terfynwyd hi o gwbl. Yn o debig, terfynodd yn agos yn yr un man a phob dadl—pobun o'r ddwyblaid yn argyhoeddedig mai hi a enillodd y fuddugoliaeth. Nid pobl a giliai o frwydr o'r fath hyn yn hawdd oedd pobl Llandysul yr adeg honno; ac yr oedd y blaid wrthwynebol yn un mor benderfynol i beidio a rhoddi eu harfau i lawr. Math ar ragarweiniad yw'r uchod i'r hyn a fwriadaf ysgrifennu ar y person a enwyd eisoes.

Sylwais fod y Nodiant Newydd wedi cnnill y fuddugoliaeth ar ei gwrth-ymgeisydd. Perthyn mesur mawr iawn o'r clod am hyn i'r diweddar John Jones o Aberaeron—o leiaf, belled ag y mae a fynno Ceredigion a'r mater. Nid wrth ei enw priodol, bodd bynnag yr adnabyddid ef yn gyffredin, eithr naill wrth yr enw "Jones bach" neu "Jones bach Aberaeron," neu "Jones bach y cantwr," neu "Jones y cantwr." Wrth yr enw John Jones o Aberaeron nis adnabyddid gan neinor i neb: ond yr oedd yn adnabyddus i bawb wrth un o'r pedwar enw uchod. Pe gofynnid i rywun, "welsoch chi John Jones Aberaeron"? dim ond llygadrythiad gwag a fuasai'r ateb; cystal a phe dywedai, "Wn i'n y byd pwy yeh chi'n feddwl. Y mae llawer o'r enw John Jones yn byw yn Aberaeron"; ond pe gofynnid "Welsoch chi Jones bach y cantwr"? ni fuasai galw am un eglurhad pellach cyn cael ateb. Pam "Jones bach"? Efallai mai dyn bach o gorff ydoedd; ond mwy tebig ydyw y defnyddid yr ansoddair "bach" (fel y gwneir yn aml) o barch tuag ato, neu fel arwydd o anwyldeb. Yr oedd pawb yn hoff o hono. Nid syndod hyn, oblegid cymeriad dymunol iawn ydoedd. Ni olyga hyn na pherthynai iddo ryw fesur o'r "hen Adda," ys dywedir. Nid anturiai neb ddamsang ar ei draed heb deimlo'n edifar o wneud hynny. Ond, ar y cyfan, llwyddai i gadw'r elfen deigraidd neu lewaidd dan reolaeth berffaith.

Nid yw manylion ei hanes yn fy meddiant : ac nid yw hyn o un pwys ymhellach nag y deuant tu fewn i derfynau amcan y llith hon. Rywbryd—o tua'r flwyddyn '60 ymlaen ; ni allaf roddi'r dyddiad yn gywir—dechreuodd ei glodydd ledu fel gwr medrus yn y Nodiant Newydd a ddaethai i sylw cynhyddol tua'r adeg hon : ac yn fuan deuai gwahoddiadau aml ato oddiwrth Eglwysi a Chapeli i fynd yno i roddi cyfres o wersi arni. Daeth ei enw'n adnabyddus dros ran fawr o Geredigion, hyd yn oed tu allan i'w therfynau. Braidd y credaf fod nemor i gymdogaeth yng Nghanolbarth y Sir, nad beth am barthau eraill o honi, na fu "Jones bach" yno'n cadw "ysgol gân" ryw adeg neu arall.

Rhyw aeaf—nid wyf yn hollol sicr ymha flwyddyn ; tua'r '68 neu'r '69, efallai ; yn unrhyw achos cyn y flwyddyn '70—daeth i Gapelygroes ; a thyrrai tyrfaoedd yno o bob cyfeiriad—o Gwrtnewydd, a Drefach, a Chribyn, hyd yn oed o Lanybyther a Llanbedr; a bu llewyrch rhyfeddol ar y cyfarfodydd. Nid oeddwn i ond ieuanc—rhyw gymaint tan ddeg ; oblegid ym Mhenlon yr Hendryd y trigai fy rhieni ar y pryd. Y mae gennyf gof byw iawn am hyn oblegid un anhawster neilltuol a'm blinai wrth fynd o honof i'r cyfarfodydd a dychwelyd o honynt, sef, y dywedid wrthyf bod "bwci" yng Nghwm Sychbant—yr allt rhwng yr Hendryd ac Abercerdinen ; ac arswydwn o feddwl am y canlyniadau pe digwyddai inni'n dau—y "bwci" a minnau—ddod i wrthdarawiad a'n gilydd ; oblegid credwn bob stori am "fwciod" a adroddid wrthyf. Terfyn oes y "bwciod" a'r "toiliod" a'r "canhwyllau cyrff" oedd yr adeg honno. A pherai gwrando ar eu hadrodd gryn ddychryn—yn enwedig i blant : ac nid oeddwn i'n eithriad. Y ffordd y deuwn dros yr anhawster oedd rhedeg a'm holl nerth o un pen heibio i'r pen arall o'r allt, hyd y deuwn yn glir o honi ; yna, tybiwn fy mod yn ddiogel. A hyd yn oed wed'yn, tybiwn bob cam a roddwn ei fod ar afaelyd ynof. O bob cyfnewidiad a ddaeth i fod yn ystod yr hanner can mlynedd diweddaf, nid y lleiaf ei werth a fu ditlaniad y gred yn yr ellyllon di-sylwedd hyn.

Beth am y cyfarfodydd, ynte ? O'r tu blaen i'r pulpud yr oedd Modulator yn grogedig : safai'r Athro yn y Cor Mawr, gyda gwialen bwrpasol yn ei law ; ac a hon yr arweiniai'r cerddorion trwy bwyntio'r Nodau. Am beth amser ar ol dechreu'r cyfarfod ymarfer ar y *Modulator* a wnaem, dan arweiniad yr Athro. Un peth neilltuol a hynodai'r Athro yn y rhan hon o waith y cyfarfod oedd craffter ei glyw. Os digwyddai i un o'r cerddorion fethu a tharo rhyw sain yn hollol gywir, nid oedd mynd ymhellach i fod hyd y gorchfygid yr anhawster neu'r diffyg. Nid oedd llithro dros anhawsterau neu ddiffygion i fod. Ymhellach, medrai nodi allan ar du pwy y bu'r methiant. Pan welid ef yn troi ei lygaid yn weddol

aml i ryw gongl o'r adeilad, gellid bod yn sier nad oedd popeth yn iawn ar du rhywim. Yna, ymhob cyfarfod, gelwid ar ryw hanner dwsin—un ar ol y llall—o'r cerddorion i ddod i'r Cor Mawr i nodi tôn ar y *Modulator*, a'r cerddorion i'w chanu. Tipyn o burdan oedd hyn i lawer: er hynny, awyddai pobun fynd trwyddo; oblegid nid oedd dod yn gerddor yn bosibl heb hynny. Profiad rhyfedd a fu fy mhrofiad i pan alwyd arnaf y tro cyntaf. Crynai pob modfedd o honof o'r coryn i'r traed, hyd yn oed y wialen yn fy llaw, yn gymaint felly fel mai gydag anhawster y medrwn daro'r nodau'n gywir. Y dôn ddewisais ar gyfer yr amgylchiad oedd "Boston." Am y rheswm hwn y mae yn fy mynwes deimlad cynnes at yr hen dôn hon hyd y dydd heddiw. Dim ond un gaeaf os nad wyf yn camsynied, y bu yma. Ar derfyn y tymor, dug yr Arweinydd arholwr gydag ef ar ddydd penodedig i arbrofi gwybodaeth ei ddisgyblion yn y gelfyddyd newydd, a rhoddid tystysgrifau i'r ymgeiswyr llwyddiannus. Ymholiad: pa nifer o'r rhai a fu'n dilyn y cyfarfodydd hyn yng Nghapelygroes sydd ar dir y byw heddiw.

Bu'r cyfarfodydd hyn yn gychwyn i don o frwdfrydedd eirias-boeth dros gerddoriaeth drwy'r cymydogaethau cylchynol—ton o frwdfrydedd nad yw ei nerth wedi dechreu gwanhau eto. Yr oeddym ni, blant, pe'n bosibl, yn fwy brwdfrydig na neb. Dim ond canu—canu—canu oedd ar ein bryd. Yr oeddwn yn yr Ysgol yn Llanwnnen gyda Dewi Hefin ar y pryd. Yr oeddym yn nifer luosog o fechgyn tua'r un oedran. A chanu a wnaem bob cyfle—canu cyn mynd i'r ysgoldy yn y bore, canu drwy'r hanner dydd, canu wrth fynd tua thref: a hyd yn oed yn ystod oriau'r ysgol, y llyfr canu a gai'r sylw blaenaf, gyda chanlyniadau anmymunol aml i dro. O'r bechgyn hyn, nid oes yn fyw yn awr ond Evan Jones, Abernant, a minnau.

Y mae un digwyddiad neilltuol yn y cysylltiad hwn yn dod i'm cof yn fyw iawn. Yr oeddym wedi bod wrthi'n brysur am gryn amser yn dysgu darnau syml. Ond i ba ddiben? Ni welem un drws yn agor a roddai inni gyfle i ddangos i'r cyhoedd y fath gerddorion oeddym. Tueddai hyn i oeri ein brwdfrydedd. Fodd bynnag, daeth i glustiau un o honom, ryw ddydd, bod te parti i fod yn Rhydygwin. Ni wyddai'r un ohonom ymha le'n y byd yr oedd Rhydygwin—gallai fod yn Lloegr, o ran a wyddem ni—neb o honom. Ond gan nad ymha le'r oedd, gwelem gyfle inni ddangos ein talentau. Felly, aed ati'n ddioedi i arfer y darnau a fwriadem ganu. Braidd y cymerem hamdden i fwyta ein "tocynau" sych hanner dydd, gan mor eirias ein brwdfrydedd a'n hawydd i feistroli'r darnau. Ac o feddwl am y clod a enillem drwy ein canu gorchestol, tueddai'r fynwes, ar rai prydiau, i chwyddo hwnt i derfynau

diogelwch. O feddwl am y peth heddiw, ni allaf lai na synnu oblegid ein haerllugrwydd plentynnaidd. Ond bu rhyw angel gwarcheidiol yn ddigon caredig i daflu ein castell awyrol yn *ben dramwnwgl i'r llawr. Wn i ddim, Mr. Gol., a ydyw'r gair "pendramwnwgl" yn air llenyddol. Os nad yw, rhowch rywbeth arall yn ei le. Cyn i ddydd y te parti ddod, bu raid inni am ryw reswm nad allaf ei ddwyn i gof, roddi'r bwriad i fynd i Rydygwin i fyny. Wyddai pobl Rhydygwin fawr y fath wledd a gollasant oblegid inni fethu a mynd yno. Wedi'r cyfan, bendith fawr iawn a fu inni gael ein rhwystro i fynd yno—bendith fawr iawn i ni blant, gan nad beth am fobl Rhydygwin. Cymharol fyr a fu fy ngyrfa i fel "canwr." Daeth awel heibio a oerodd fy mrwdfrydedd dros gerddoriaeth. Meddai Dewi Hefin wrth fy mam un tro: "'D yw'r bachgen yn dysgu dim. Dim ond canu sydd ar ei fryd byth a beunydd. Mae'n rhaid iddo roddi'r canu i fyny." A rhoddi'r canu i fyny a fu raid imi. A dihangodd y gân yn llwyr o'm bywyd, byth i ddychwelyd mwy—er colled dirfawr imi.

I ddychwel at destun y llith. Er imi golli'm diddordeb mewn cerddoriaeth, ni chollais fy adnabyddiaeth o Athro canu fy mebyd—"Jones bach." Bob tro yr awn i Aberaeron, arferwn alw yn ei siop lyfrau (un o brofedigaethau pennaf fy mywyd a fu dod i gymdogaeth siop lyfrau heb fod yn wacach fy llogell oblegid hynny); a chawn ymgom felys ag ef. Rhyfedd fel y cofiai enwau'r rhai a fynychai ei "ysgol gân" mewn gwahanol leoedd. "Sut ma hwn a hwn"? "Ydy hwn a hwn yn fyw"? oedd rai o'i ofyniadau bob tro yr ymwelwn ag ef. Am amryw flynyddoedd cyn ei farw (ryw hanner dwsin -mwy neu lai- o flynyddoedd yn ol) bu'n hollol ddall. Ond cadwai'i adnabyddiaeth o honof drwy'r llais yn unig. Dim ond imi ei gyfarch fel arfer wrth fynd o honof i mewn i'r siop oedd eisieu, ac fe'm hadwaenai heb un eglurhad pellach. A chydag anhawster y cawn fynd allan o'r siop, gan gymaint ei awydd i wybod hanes ei hen gyfeillion, ac adrodd hanes ei deithiau yntau hwnt ac yma: a chyda direidi'n argraffedig ar ei wyneb gofynnai, cyn imi fynd allan, "'Dych chi ddim wedi anghofio Boston, odich chi?"

Y mae nifer luosog o'i hen ddisgyblion, yn ddiau, yn fyw eto, er y rhaid bod eu nifer yn lleihau un flwyddyn ar ol y llall, a chenhedlaeth newydd yn codi nad adwaenent mohono. Y mae cof-adeiladau wedi'u codi i lawer am wasanaeth llai ei werth nag eiddo "Jones bach." Gorffwys ei ran farwol ym mynwent Henfynyw. Ai gormod i gerddorion Ceredigion osod cofadail deilwng o hono ar "fan fechan ei fedd"? Neu, yn well, i godi cofadail deilwng o hono ar ryw lecyn amlwg yn nhref Aberaeron?

D.E.

* Nid oes eisieu gwell gair byth.—Gol.

Trysorfa'r Myfyrwyr.

AT GARWYR YR ACHOS.

Annwyl Frodyr a Chwiorydd,—

Fel y gwyddoch y mae'n mryd ein Cymdeithas Undodaidd Gymraeg ers tro maith i furtio Trysorfa sefydlog er cynorthwyo ein pobl ieuainc y sydd ac a fydd a'u hwynebau at y weinidogaeth. Ystyrir hyn yn welliant ar yr hen gynllun o gasglu o dro i dro fel y byddai galw a chredir hefyd y bydd y gronfa'n foddion i ennill rhagor o'n pobl ieuainc i ymroddi i'r weinidogaeth.

Y swm amcenir ati yw £3,000 a chyfrifir y bydd y llog blynyddol ar y swm yna'n ddigon i gyfarfod ein holl angenion. Unwaith y ceir y swm yna i law dyna ddiwedd ar y son am gasglu i gynorthwyo myfyrwyr. Gwna un ymdrech dda y ffordd yn glir am oesau. Ond, medd rhywun, a yw yn debygol y gellir casglu y swm o £3,000? Fy ateb pendant i yw gellir ond i ni fynd ati o ddifrif ac ond i bob un wneud ei orau.

Flynyddoedd yn ol rhoddais bump gaeaf i ddarllen yr hen Ymofynyddion. Darllenais hwynt o'r cychwyn yn 1847, ymlaen ac wrth ddarllen chifyn ar ol chifyn dyma ddywedwn wrthof fy hun "Yr oedd hen dadau i hen famau ein Eglwysi yn nodedig am eu ffyddlondeb a'u brwdfrydedd gyda'r achos." Mae yna ffyddloniaid o hyd: mae yna ffyddloniaid yn ein dyddiau ni fel yn y dyddiau gynt a chredaf y gofala'r ffyddloniaid hyn, unwaith y deallant y sefyllfa fod y swm a ennwyd uchod yn cael ei sylweddoli.

Mae un cyfaill wedi addaw £100, un arall £100 ac un arall £50. Fe welwch fod ffyddloniaid yn y tir o hyd. Boed i bawb fod yn ffyddlon yn ol eu gallu a bydd popeth yn dda. Yr wyf fi wedi fy mhenodi yn Ysgrifennydd y Drysorfa yma. Hyd ag y gwn yr unig ddau gymhwyster sydd ynof i'r gwaith hwn yw (1) Fy mod yn gredwr eryf yn yr angen am y gronfa: (2) fod fy ffydd yn mharodrwydd ein pobl i gyfranu pan fo'r achos yn deilwng yn fawr iawn. Dyna'r unig ddau reswm sydd gennyf dros ymgymeryd a'r gwaith. Hyderaf na chaf fy siomi.

Bwriadaf gyda chynorthwy cyfeillion y sydd mor frwdfrydig a minnau fynd ati o ddifrif. Da chwi meddyliwch am y mater yn ofalus: gwnewch ef yn destun siarad ar yr aelwyd ac a'ch cydaelodau. Cyfrifwch hyn yn un o faterion pwysicaf ein henwad

ar y pryd a cheisiwch benderfynu beth yw'r swm ddylasech roddi at gronfa mor bwysig. I ddangos awydd y Pwyllgor am symiau da, sylweddol caniatewch i mi ddyweyd y gall pob cyfrannydd dalu ei addewid ar ddwywaith os bydd hyny o fantais iddo. Gall dalu un hanner ei addewid yn 1928 a'r llall yn 1929.

Bwriadwn wneud y casgliad hwn yn gasgliad o dy i dy ac o berson i berson a threfnwn ddechreu ar y gwaith yn ddioedi.

Cesglir yn Sir Aberteifi gan Mr. Tyssul Davies. Aberdar : Mr. J. Llewelyn, Brohedyn, Castellnewydd Emlyn a minnau ; tra mae Mr. W. S. Jones, M.A., Aberystwyth a Mr. Josiah R. Jones wedi addaw ymweld a charwyr yr achos ym Morgannwg.

Yr eiddoch yn gywir,

E. O. Jenkins.

Cyrddau'r Pasg.

DAETH nifer lluosog o bobl at ei gilydd i Gwrtnewydd ar ddyddiau Mawrth a Mercher y 10fed a'r 11eg o Ebrill pan gynhaliwyd Cyrddau Chwarter yr enwad yng Nghapelybryn. Dechreuwyd y tair oedfa bregethu gyda dwyster a defosiwn gan y tri myfyriwr sydd gan yr enwad yng Ngholeg Caerfyrddin, sef Mri. Tom J. Jones ; Cyril V. Lewis a J. Marles Thomas. Pregethwyd Nos Fawrth gan y Parchn. D. Conwil Evans, Ciliau a D. G. Rees, Gellionnen ; Nawn Mercher gan y Parch. E. R. Dennis a'r Prifathro J. Park Davies, M.A., Caerfyrddin, a Nos Fercher gan y Parchn. H. H. C. Jones, B.A., Caerdydd a D. G. Rees. Cafwyd cyfres wych o bregethau dyrchafol ar bynciau crefydd a bywyd ac ni chyrhaeddodd areithyddiaeth ein pulpud nemor erioed safon uwch nag a wnaeth yn yr wyl hon.

Llawenydd calon i lawer hen Undodwr oedd gweld y capel yn orlawn yn ystod y tair oedfa ac o'r dechreu i'r diwedd ni fwynhaodd neb ei hunan yn well na'r hynafgwr ffyddlon Mr. David Jones o Droedyrhiw, Cwrtnewydd ac yntau bellach yn 92 mlwydd oed. Blin a fu gan y gynulleidfa Nos Fawrth i glywed fod afiechyd wedi lluddias Mr. Thomas, Pantydefaid i ddyfod i'n hannerch ond gyda'i barodrwydd arferol llanwyd y bwlch gan frodor arall o Gwrtnewydd sef Mr. Rees, Gellionnen. Heblaw y gweinidogion a enwyd uchod gwelwyd hefyd yn bresennol y Parchn. T. O. Williams, M.A., Llanbedr ; E. O. Jenkins, Llwynrhydowen a E. Glyn Edwards, (B.), Talog.

Dangosodd bonedddigesau Capelybryn groesaw mawr i'r ymwelwyr wrth y byrddau. Yr oedd pawb o honynt ar eu gorau a Mr. J. Jones, y "fireman" mor ddiwyd a neb.

Diolchwyd yn gynnes iddynt am hynny ar ran y Gymdeithas gan Mr. D. Tyssul Davies.

CLEDLYN.

PWYLLGOR Y PASC. Cynhaliwyd hwn yng Nghapelybryn, Cwrt-newydd ar yr Hleg o Ebrill o dan lywyddiaeth Mr. D. Tyssul Davies, Aberdar. Yr oedd yn dda gan bawb i weld Mr. Davies yn ei le ac i ganfod arwyddion amlwg ei fod ar wellhad -dioleh i'r fordaith.

Wedi darllen ac arwyddo cofnodion y Pwyllgor blaenorol gwnaeth y Llywydd gyfeiriad tyner iawn at absenoldeb y Parch. Lewis Williams, gweinidog Eglwys Capelybryn a'r Parch. D. Evans, Capelygroes, ac ar ei awgrym ef pasiwyd ein bod yn datgan ein cydymdeimlad dwysaf a hwynt y naill yn ei aflechyd hir a blin a'r llall yn ei unigrwydd ar ol colli priod ffyddlon a gofalus. Pleidlais o ddyfnder calon oedd hon.

Trefnwyd fod yr Ysgrifennydd i gynrychioli'r Gymdeithas yng Nghyfarfodydd Blynyddol y C.U.F. a Thramor wythnos y Sulgwyn.

SEFYLLFA ARIANNOL YR YMOFYNNYDD.—Cafwyd adroddiad manwl o'r sefle gan Mr. D. Martin Jones, Y.H., Trysorydd y Gymdeithas. Gyda'r diben o glirio'r ddyled yr oedd y Cylchgrawn wedi mynd iddo trefnwyd tua naw mis yn ol fod swm neilldnol ar bob Eglwys i'w thalu. Dywedodd Mr. Jones fod yr oll o'r Eglwysi wedi danfon eu cyfraniadau i law ag eithrio Cefncoed, Graig Trebanos, Brondeifi a Chaeronnen. Teg yw dyweyd fod cyfran Graig Trebanos a Brondeifi wedi eu talu erbyn hyn. Talodd Eglwys fechan Aberystwyth i mewn ddwbl y swm a roddasid arni. Mae'n aros heddyw ar lyfrau'r Trysorydd gyferbyn a'r YMOFYNNYDD y swm o £13 o ddyled, ond os cyflawnir yr addewidion wnawd yn y Pwyllgor bydd yr oll o'r ddyled wedi ei glirio cyn ymddangosiad y nodion hyn.

Darllenodd yr Ysgrifennydd lythyr oddiwrth y Parch. T. O. Williams, M.A., yn atgofio'r Gymdeithas fod tymor ei olygyddiaeth o'r YMOFYNNYDD i derfynu ddiwedd y flwyddyn ac yn gofyn i'r Pwyllgor benodi olynydd iddo. Ar gynhygiad y Llywydd yn cael ei eilio gan Mr. Josiah R. Jones, Y.H. pasiwyd pleidlais o

ddiolchgarwch cynnes i Mr. Williams am ei waith rhagorol ynglyn a'r Cylchgrawn a phenodwyd Mr. Cledlyn Davies yn olynydd iddo.

Y Llyfr Tonau ac Emynau.—Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. T. Arthur Thomas (yr hwn fethodd fod yn bresennol oherwydd afiechyd) yn hysbysu'r Pwyllgor fod yr argraffwaith wedi ei gwblhau ag eithrio'r Rhagymadrodd a'r Mynegai. Awdurdodwyd y Trysorydd i dalu £300 i'r argraffwyr fel rhan o'r tal am argraffu.

Trysorfa'r Myfyrwyr.—Ar ol cryn siarad pasiwyd ein bod yn derbyn awgrymiadau y Pwyllgor arbennig fu'n ystyried y mater hwn ac ein bod i fynd ati ar unwaith i geisio sicrhau Trysorfa sefydlog o £3,000 i'r diben o gynorthwyo ein myfyrwyr. Trefnwyd fod y gwaith o gasglu—casglu o dy i dy—yn Sir Aberteifi yn cael ei ymddiried i'r Llywydd (Mr. Tyssul Davies), Mr. Llewelyn, Brohedyn a E. O. Jenkins, ac fod Mri. W. S. Jones, M.A., Aberystwyth a'r Henadur Josiah Jones i ymweled a chyfeillion ym Morgannwg.

Trefnwyd fod y Cyfarfodydd Blynyddol i'w cynnal yn y Graig, Llandysul. Tystiai lluosogrwydd y nifer oedd yn bresennol fod ein pobl yn cymryd diddordeb ym materion yr enwad.

E. O. Jenkins.

Capel Ciliau Aeron.

MAEN COFFA I'R DIWEDDAR BARCH E. CERDEIG JONES, M.A.

Er's peth amser bellach y mae'r cyfeillion yn y Ciliau a'r cylch wedi bod yn trefnu a gweithio er cael yr uchod i ben, ac erbyn heddiw y mae y rhagolygon yn dra gobeithiol y bydd i'r gwaith gael ei orffen cyn diwedd yr haf hwn.

Nid yw'r drysorfa tuag at wneud hyn yn deilwng wedi llwyr ddod i fyny a'r gofynion, a chan fod cylch adnabyddiaeth a chyfeillgarwch yr ymadawedig yn eang—yn llawer mwy eang na chymydogaeth ei febyd, cred y brodyr yn y Ciliau na charai neb o'r cyfeillion (pell ac agos) i hyn gael ei orffen heb iddynt gael cyfle i gynorthwyo yn y gwaith da a theilwng hwn.

Swyddogion y mudiad ydyw :—

Ysgrifennydd—Mr. Evan Hughes, Dihewid, Felinfach.
Trysorydd—Mr. Timothy Jonathan, Hampton House, Ciliau Aeron.

Urdd y Benywod.

EIN CYRDDAU BLYNYDDOL. Y mae wedi'i benderfynu bellach cynnal Cyfarfod Blynyddol yr Urdd hwyr Mercher, Mai 30, am hanner awr wedi saith. Fe'i rhagflaenir gan wasanaeth byr gan Mrs. Blake Odgers, Llywydd blaenorol ac yn bresennol yn Gadeirydd y Pwyllgor canol. Llywyddir gan Miss Ruth Nettleford—y Llywydd. Fe roir yr Adroddiadau Blynyddol ac apwyntir y Pwyllgor newydd.

Ar ddydd Gwener, Mehefin 1, am 10.30 o'r gloch, cynhelir Cynhadledd y Dirprwyon. Fe gafwyd amryw awgrymiadau parthed y cwestiynau y buasai'n fuddiol eu trin yma. Yn eu plith—

1.—Emyn yr Urdd.
2. Y posibilrwydd o gydweithrediad agosach a'r canghenau drwy gynrychiolwyr talaethol.
3.- Rhai cwestiynau y frawdoliaeth. Derbynir awgrymiadau pellach yn ddiolchgar.

Ar y ford yn Essex Hall fe geir llawer o gyhoeddiadau newydd, a'r blaenaf ond odid hwyrach ydyw araith ragorol a diddorol Dr. U. F. Capek ar "Addysg Grefyddol Heddiw."

Fe chwilir llety yn llawen ond y mae yma lawer o anhawsterau, ond sylwer, wedi'r wythnos gyntaf ym Mai ni ellir sicrhau llety i neb nad yw ei enw gyda'r Ysgrifennydd. Fe gaiff y dirprwyon eu rhaglenni, a phopeth ynglyn a'r Cyfarfodydd ar neu cyn Mai 24.

* * *

Y mae newyddion oddiwrth aelodau y Frawdoliaeth yn dod o bedwar ban y byd. Nid yn y wlad yn unig y teimlir yn unig ond hefyd yn nhrefydd dieithr ac y mae bod yn "*Unig yn Llundain*" yn deimlad od. Nid oes alw am fod felly os defnyddir y gymdeithas fel y dylid oherwydd medrir cael cyflwyniadau ond rhoddi gwybodaeth ar unwaith i'r Ysgrifennydd am rywun sydd wedi symud i le dieithr. Pe digwyddai iddi fynd rywle lle nid oes Eglwys gennym, medrir ei chael fel Aelod y Cymdeithas gan dderbyn drwy'r Urdd—naill ai drwy gangen neu arall—gyfran o'r nerth cynhaliol a greir drwy amcan unol o bob aelod ar ei ben ei hun tuag at fywyd dyfnach a llawnach.

Cymanfa Ganu Morgannwg.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Morgannwg eleni yn y Graig, Trebanos, ar Llun y Pasc. Daeth y cantorion ynghyd o Gefncoed Cymer, Hen Dy Cwrdd, Aberdar, Highland Place, Aberdar, Glanrhondda, Treorci a'r Nottais. Bu llawer o baratoi, a pheth pryder ar hyd misoedd y gaeaf, ond trodd y Gymanfa allan yn well na disgwyliadau y mwyaf gobeithiol. Parhaodd y tywydd yn sych trwy y dydd. Arweiniwr y Gymanfa eleni oedd Mr. Lewis Edwards, y Cefn, yr hwn a wnaeth ei waith yn ardderchog, ac i foddlonrwydd pawb. Dechreuwyd cyfarfod y bore gan y Parch. Constance Harris, gweinidog Highland Place English Unitarian Church, Aberdar, yr hon oedd yn ei chlerical bands, a'i Biretta ac yn edrych yn hynod o swynol ynddynt. Croeshawyd hi yn gynnes i'r Gymanfa ac i'r lle gan y gweinidog. Llywyddwyd cyfarfod y bore gan Mr. Gomer Ll. Thomas, J.P., Merthyr Tydfil. Nid oes noddwr gwell i'r achos Undodaidd ym Morgannwg nag ef. Rhoddodd anerchiad difyr a osododd bawb yn ei ysbryd goreu ar ddechreu'r dydd. Dechreuwyd Cwrdd y prynhawn gan y Parch. W. J. Phillips, y Nottais. Da oedd gennym ei weld unwaith eto yn ein plith ar ol ei afiechyd maith. Nid oes neb ym Morgannwg wedi bod yn ffyddlonach a mwy teyrngarol i'r achos Undodaidd nag ef, ac y mae unwaith eto yn llanw ei swydd gweinidogaethol yn y Nottais. Llywyddwyd yn y prynhawn gan y Cynghorwr D. Tyssul Davies, Aberdar. Yr oedd arno liw haul yr Aifft a mor y Canoldir, a mawr hyderwn y caiff ynte adferiad iechyd fel canlyniad i'w fordaith i'r Dwyrain. Dechreuwyd cyfarfod yr hwyr gan y Parch. E. R. Dennis, Aberdar, a llywyddwyd gan weinidog y lle. Canwyd yn ystod y dydd gan Vernon Jones, Dannie Bowen, Tydfil Griffiths, a Miss Evelyn Bowen, o Drebanos a Master Andrews o'r Cefn, ac adroddwyd gan Mrs. Ceinwen Davies a Bessie Davies, o Drebanos, a Mr. W. R. Evans o Aberdar. Cyfeiliwyd yn fedrus trwy y dydd gan Mr. Isaac E. Hopkins, B.Sc. Paratowyd lluniaeth i bawb gan chwiorydd eglwys y Graig yn yr ysgoldy, a diolchwyd yn gynnes iddynt ar ddiwedd y dydd ar ran y dieithriaid am eu gwasanaeth.-D.G.R.

Marwgofion.

Llun, Ebrill 2, yn 52 mlwydd oed, Prosser Thomas, Heol y Graig, Trebanos. Wele ni eto'n cofnodi marwolaeth un yn anterth ei flynyddoedd; pan mae dyn yn gyffredin yn ei fan goreu fel y dderwen wedi iddi gyrhaeddyd ei chyflawn nerth. Ond fe ddaw storm ar ol storm, rhuthr-wynt ar ol rhuthr-wynt, nes o'r diwedd hi a syrth. Mae pwer y pren yn fawr, ond gan y storm y mae'r pwer mwyaf; a hi a orfu eto'n y cysylltiad hwn. Bu ein cyfaill ymadawedig dan ddyrnodiau lawer; dro ar ol tro y dioddefodd yn enbyd, a daeth allan yn ddihangol bob tro. Ond y waith olaf hon, gwelwyd ei fod yn colli'r dydd, a chanfuwyd ei fod, er ei ymdrech a'i egni dihafal, yn orchfygedig. Mab ydoedd efe i'r diweddar Griffith a Dinah Thomas, Graig, Trebanos; dau o aelodau ffyddlon y Graig a Gellionnen am flynyddoedd maith. Mae ar ei ol weddw a phedwar o blant, ac y maent, fel y mae goreu'r modd, bob un wedi dod i fyny i oedran cyfrifol. Mae cydymdeimlad yr ardal a'r cylch yn mynd i'r weddw a'r merched yn herwydd fod y bachgen mewn gwlad bell, ac yn rhy bell i ddychwel, fel y gwyddom y carai, i angladd ei dad. Ond ni a obeithiwn, ac a gredwn y caiff Griff., fel y'i gelwid, wybod am hyn, ac y geill fyfyrio a syn-fyfyrio, mewn gwlad bell, am

un o broblemau galarus y bywyd hwn, sef, o farw a chladdu rhieni, heb allu tynnu tua'r hen wlad. A phosibl yw, pwy a wyr ? na chaiff Griff. gyfle rywbryd, yn rhywle, efallai'n ddiarwybod iddo'i hun, i weled y llinellau hyn, ac y bydd iddo golli deigryn bach o gof parchus ac annwyl am ei dad hoffus. Ac os y dychwel efe, bydd iddo gartre agored, a chroeso fel yr afon. Cladd-wyd y dydd Iau canlynol wrth Gellionnen. Gweinyddwyd gan y Parch. D. G. Rees, a chynorthwywyd ef gan y Parchn. L. G. Lewis, Pont-ardawe a D. Johns, Trebanos. Ffyddiog ym y bydd i Dduw'r nef aros eto'n nodded ac yn warcheidwad ysbrydol i'r weddw a'r plant.

Dydd Gwener, Ebrill 13, yn 86 mlwydd oed, Margaret, gweddw y diweddar William Bowen, Darren, Trebanos. Aeth efe ym mlaen rhyw ddeuddeng mlwydd a hanner yn ol. Ac wedi'r ysbaid hir, dyma'n hann-wyl fam eto, wedi croesi ato i'r ochr draw, lle y cawn ninnau ryw ddydd a ddaw osod ein traed ar y glannau hyfryd, lle mae'r hinsawdd gynhesed, a'r haf yn para byth. Ffodus y bu hi o iechyd drwy bron yr oll o'r daith, oddigerth ychydig o amser cyn yr ymddatodiad. Pallodd ei golygon er's peth amser, a diameu y blinai hyn hi. Ond er hynny, derbyniodd a dioddefodd yr anffawd heb rwgnach, na dweyd dim yn ynfyd. A phan ddigwyddem basio'r bwthyn, yn yr hwn, mae'n debyg y'i ganwyd, ac o'r hwn y'i cleddir, gofynnem iddi'n hawddgar—"Sut yr ydych heddyw, modryb Marged ? atebai hithau mor hawddgar a hynny "O, lled dda, ond fod yr hen lygaid yma yn pallu tipyn, wel di." Bydd i'r geiriau hyn aros yn hir ar len ein cof. Bu'n fam rinweddol a pharod iawn, yn garedig a haelionus i'r achos yn y Graig a Gellionnen, am dymor eithriadol faith. Medrai, gyda hyawdledd, alw i gof, ac adrodd ambell i hanes per o'r dyddiau gynt, a hyfryd oedd gwrando arni. Ym myd y blode y carai hi aros a bod ; yno yr oedd ei chalon, ac yno, o bob man yn y byd yr ymserchodd fwyaf. Ger ei bwthyn, ar ben y Graig, yr oedd ganddi ardd, yr hon y gallem ei galw'n ardd y blodau. Casglodd, plannodd, a thrawsblannodd flodau rif y gwlith, a phleser oedd edrych i'r ardd hynod hon, a sylwi ar y pamau bach a'r border cain. Do, ymddi-fyrrodd lawer gyda'r blodau. Daeth dydd ei hangladd a chludwyd hi i'r fynwent o tan dyrch o flodau am-ryliw. Bu fyw gyda'r blodau, ac aeth y blodau ar ei hol i wneud pam a border ar ei bedd. Claddwyd "merch y blodau" y dydd Mawrth canlynol yng Ngellionnen. Gadawodd wyth o blant ar ei hol, un o ba rai ddigwydd fod yn yr Amerig er ys dros ddeg mlynedd ar hugain, a chanddi deulu lluosog. Sicr y bydd i'r oll ymdawelu mewn gobaith. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees gyda chynorthwy y Parch. D. Johns, Trebanos.

Nodion yr Eglwysi.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Yn y Graig, nawn a hwyr Sul, Chwef. 5, dau gwrdd pen chwarter yr Ysgol Sul. Cyfeiliwyd gan I. E. Hopkin ; Lilian Bowen ; W. J. Bowen ; Olwen Bowen a Mrs. E. T. Davies, Pontar-dawe. Rhoddodd Cor "Carwyr Cerdd," Pontardawe, ddau ddarn yn effeithiol dan arweiniad Mr. E. T. Davies, Pontardawe. Llywyddwyd gan Mri. L. Morgan, Clydach a John Hopkin. Cyfarfodydd da iawn.—Eto yn yr un lle, Sul, Mawrth 18, cyfarfod adrodd a chanu i'r plant yn arbennig. Bu raid wrth raglen fer yn herwydd analluogrwydd tua hanner y plant i fod yn bresennol o achos anhwylderau ac afiechydon. Cawd cwrdd bach neis. Arweinydd, y Parch. D. G. Rees. Cyfeiliwyd gan Mr. I. E. Hopkin, Misses Annie Morgan a Olwen Bowen.—

Eto, yn yr Ysgoldy, nos Lun, Mawrth 12, rhoddwyd cyfres o ddarluniau ar "*A look around the Zoo*," a manylwyd ar y cyfryw gan y Gweinidog. Mae'r hud-lusern wedi dod i boblogrwydd gan y plant, gan gymaint yr ymdyrru y sydd ar ei hol. Trefnid y darluniau a gweithid yr hud-lusern gan y brawd Mr. Hopkin Jones, Ystor y Graig.

DYLED YR YMOFYNNYDD.—Gwnaeth y Gymdeithas Undodaidd yn y Cyfarfod yng Nghribin apel arbennig at yr holl eglwysi er dileu y ddyled oedd yn aros ar Yr Ymofynnydd. Gosodwyd i lawr y swm ellid ddisgwyl oddiwrth bob eglwys, ac y mae pob un welir yn y rhestr isod wedi cyfranu y swm ofynwyd iddynt. Y mae Aberystwyth wedi gwneud yn well, drwy ddyblu eu swm hwy. Derbyniwyd gyda diolchgarwch, wedi y Cyfarfodydd Blynyddol symiau oddiwrth bersonau fel y gwelir isod. Drwg gennym fod yna rai eglwysi heb gyfrannu eto; gobeithio y gwnant yn ddiymdroi.

	£	s.	c.
Cymdeithas yr Ysgol Sul...	10	0	0
Brondeifi	10	0	0
Gellionnen and Graig, Trebanos	10	0	0
Graig, Llandysul	10	0	0
Pantydefaid	10	0	0
Hen Dy Cwrdd, Aberdar...	8	0	0
Capel-y-bryn	7	0	0
Capel-y-groes	7	0	0
Llwynrhydowen	7	0	0
New Meeting House, Aberystwyth	6	6	0
Alltyblaca	6	0	0
Bwlchyfadfa	6	0	0
Cribyn	6	0	0
Rhydygwin	6	0	0
Capel-y-cwm	3	0	0
Ciliau	3	0	0
J. Moy Evans, Esq., Swansea	1	1	0
Rev. J. Islan Jones, M.A.	1	1	0
Thomas Evans, Esq., M.D. M.O.H., Swansea ...	1	0	0
Rev. J. Evans, B.A., Rochdale	1	0	0
W. S. Jones, Esq.,M.A.,M.Sc.	1	0	0
Aberayron Friend ...	0	15	0
	£121	3	0

D. Martin Jones, *Trysorydd.*

MANTOLEN 'YR YMOFYNNYDD' AM 1927.

Credaf, oherwydd sôn am ddyled "Yr Ymofynnydd" byth a beunydd, mai diddorol gennych fydd y fantolen am y flwyddyn 1927, a chofio ein bod wedi dwyn allan ddau Rifyn Coffa Dwbl, ac y mae costau arbennig ynglyn â hwynt, heblaw chwyddo'r "Ymofynnydd" o 16 i 20 tudalen. Fe sieryd y fantolen drosti ei hun a thros "Yr Ymofynnydd."

	£	s.	c.
Cyfanswm y derbyniadau	146	10	2
Cyfanswm yr holl dreuliau	146	3	10
	£0	6	4

Dyma'r ffigyrau (a medrir rhoi'r manylion) a roddwyd i Drysorydd y Gymdeithas gan yr argraffwyr, y Mri. J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

O ddiffyg gofod bu raid cadw rai "Nodion yr Eglwysi" hyd y rhifyn nesaf.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, **Great Darkgate Street, Aberystwyth** (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

:: Bradford House, Llandyssul ::

SPRING AND SUMMER 1928

Newest Goods in Ladies' Gent's and Children's Wear now in Stock.

E. LLOYD JONES.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.